Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Construction Metalwork

## Competition Overview

The competition will require the fabrication of 4 sided hopper , and the skills tested will include

- MAGS Welding
- Drilling
- Sawing
- Manual Oxy-acetylene cutting or Manual Plasma cutting (Thermal cuts should not be dressed)
- Assembly methods
- Marking out

Please see competition drawing for details

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Competition Outline

Each competition will be marked by the same two/three independent judges from Industry. This will ensure that there will be consistency in the marking of the test pieces at each venue. After the first competition has taken place the test pieces for the competitors who finished First, Second and Third will be taken to the second venue, so that if the results of the overall competition is close the judges will be able to compare the test pieces of both competitions. This action will ensure that the correct decisions are reached.

## Entry Criteria

The competition is intended for students, apprentices studying towards or have recently completed a Level 3 Welding/Fabrication qualification.

## Number by location/organisation

3 per location and a maximum of 4 per organisation plus maximum of 4 reserves can be registered incase of absence.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

## Brief

The competition will require the fabrication of a support stand, and the skills tested will include

- MAGS Welding
- Drilling
- Sawing
- Oxy-acetylene cutting/ Manual Plasma (Thermal cuts should not be dressed)
- Assembly methods
- Marking out
- Hopper sides can be sheared or abrasive cut

A range of welding positions will be used including, Fillet and Butt welds in the following positions

- PA
- PB

All welds will be visually inspected and marked against a detailed marking scheme. The task will include fabricating and welding using the following materials

- Flat plate
- Flat bar

All fabrications will be inspected for accuracy, quality of finish and presentation against a detailed marking scheme

## Infrastructure List

Each venue will have the minimum requirements of

- Sufficient Welding bays
- MAGS Welding sets
- Marking out tables
- Benches for assembling components
- Bandsaws
- Chop Saws
- Pedestal or Radial arm drills
- Oxy-acetylene gas cutting equipment or Manual Plasma
- Hand held Grinders
- Fume Extraction
- Welding Consumables
- Hand tools
- Scrap pieces for practice

## Competition Rules

### Competition specific rules

- All competitors will receive a health and safety briefing at the start of the competition and these rules must be adhered to throughout the competition

- Competitors who arrive late for competitions will not normally receive additional time.
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges.
- During the competition competitors should not disturb other competitors or speak to members of the public.
- Any competitor who wishes to leave the area during the competition must seek the permission of the judges.
- Competitors will not be allowed contact with tutors/coaches during the live competition. Non-compliance with this may result in deduction of points.
- If there is a power stoppage or accident, the competitors must act according to the instructions of the judges
- Competitors who break or damage equipment during the competition will not receive any additional time.
- Where a competitor is observed working in an unsafe manner they will be stopped and not permitted to continue unless willing to follow the judges' directions.
- The competition will be assessed and marked by a panel of judges (from industry, colleges or training providers) using the competition criteria and allocation of marks.

For full terms and conditions of entry and competition rules visit:
[www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

**Generic competition rules**

- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

All welds and fabricated joints and thermally cut parts will be visually inspected and assessed against a marking criteria.

Marks will be allocated for the following

- Quality and accuracy of Thermal cuts
- Quality and accuracy of Fillet welds
- Quality and accuracy of Butt welds on flanges
- Angle and position of sides
- Position and accuracy of drilled holes
- General appearance of fabrication
- Overall accuracy of the Fabrication
- Health and Safety issues

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day, as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 9th March 2023, where the First, Second and Third Awards will be announced.  Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

**Lead Contact**
Rona Griffiths - Coleg Cambria

**Expert Contacts**
Antony Commins, Coleg Cambria, Connah’s Quay, Deeside, CH5 4BR
antony.commins@cambria.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Gwaith Adeiladu Metel

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Bydd y gystadleuaeth yn gofyn am adeiladu hopran (*hopper*) sydd â 4 ochr, a bydd y sgiliau i'w profi yn cynnwys

- Weldio MAGS
- Drilio
- Llifio
- Meistr pob gwaith yw ymarfer! Profwch eich gwybodaeth gan ddefnyddio briffiau o'r blynyddoedd diwethaf, gweler y wefan hon:
- Dulliau cyfosod
- Marcio allan

Gweler lluniad y gystadleuaeth am fanylion

## Amlinelliad o'r Gystadleuaeth

Bydd pob cystadleuaeth yn cael ei marcio gan yr un dau/tri beirniad annibynnol o fyd Diwydiant. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth farcio'r darnau prawf ym mhob lleoliad. Ar ôl i'r gystadleuaeth gyntaf gael ei chynnal, bydd darnau prawf y cystadleuwyr a orffennodd yn Gyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cludo i'r ail leoliad, fel y bydd y beirniaid yn gallu cymharu darnau prawf y ddwy gystadleuaeth os bydd canlyniadau'r gystadleuaeth gyfan yn agos. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf Cystadlu

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr a phrentisiaid sy'n astudio tuag at, neu sydd wedi cwblhau cymhwyster Weldio / Ffabrigo Metel lefel 3 yn ddiweddar.

## Nifer fesul lleoliad/sefydliad

3 fesul lleoliad ac uchafswm o 4 i bob sefydliad a gellir cofrestru uchafswm o 2 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.
Dyma'r uchafswm o geisiadau a ganiateir gan unrhyw sefydliad am y gystadleuaeth hon.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae hyn yn cael ei bennu fesul ‘lleoliad’ a ‘sefydliad’.  Mae ‘Sefydliad’ yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuydd. Mae ‘Lleoliad’ yn cyfeirio at le mae’r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi. Am fwy o arweiniad ar y niferoedd hyn, cliciwch yma

## Briff

Bydd y gystadleuaeth yn gofyn am adeiladu hopran (*hopper*) sydd â 4 ochr, a bydd y sgiliau i’w profi yn cynnwys

- Weldio MAGS
- Drilio
- Llifio
- Torri gydag Ocsi-asetylen/Plasma â Llaw (Ni ddylid llyfnhau’r (*dress*) toriadau thermol)
- Dulliau cyfosod
- Marcio allan
- Gall ochrau’r Hopran gael eu llafni (*sheared*) neu dorri’n sgraffiniol (*abrasive cut*)

Bydd ystod o safleoedd weldio yn cael eu defnyddio gan gynnwys, Lleinweldiad a Weldiad bôn yn y safleoedd canlynol

- PA
- PB

Bydd pob weldiad yn cael ei archwilio'n weledol a'i farcio yn erbyn cynllun marcio manwl. Bydd y dasg yn cynnwys ffabrigo a weldio gan ddefnyddio'r deunyddiau canlynol

- Plât gwastad
- Bar gwastad

Bydd pob gwneuthuriad yn cael ei archwilio am gywirdeb, ansawdd y gorffeniad a chyflwyniad yn erbyn cynllun marcio manwl.

## Rhestr Seilwaith

Bydd pob lleoliad yn darparu’r anghenion sylfaenol o

- Llefydd gweithio pwrpasol ar gyfer weldio
- Setiau Weldio MAGS
- Byrddau ar gyfer marcio allan
- Meinciau ar gyfer cydosod cydrannau
- Cylchlifiau
- Llifiau torri (*Chop Saws*)
- Driliau braich pedestal neu Ddriliau braich rheiddiol
- Offer torri nwy ocsi-asetylen/Plasma â Llaw
- Llifanyddion Llaw
- Echdynnu Mygdarth
- Defnyddiau Traul weldio
- Offer llaw
- Darnau sgrap i ymarfer arnynt

## Rheolau’r Gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- Bydd pob cystadleuydd yn derbyn sesiwn friffio iechyd a diogelwch ar ddechrau’r gystadleuaeth a rhaid cadw at y rheolau hyn drwy gydol y gystadleuaeth.
- Fel rheol ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr ar gyfer cystadlaethau yn derbyn amser ychwanegol.
- Bydd cystadleuwyr yn dechrau a gorffen gwaith yn ôl cyfarwyddyd y beirniaid.
- Yn ystod y gystadleuaeth, ni ddylai cystadleuwyr darfu ar gystadleuwyr eraill na siarad ag aelodau’r cyhoedd.
- Rhaid i unrhyw gystadleuydd sy’n dymuno gadael yr ardal yn ystod y gystadleuaeth gael caniatâd y beirniaid.
- Ni fydd gan gystadleuwyr hawl i gysylltu â thiwtoriaid/hyfforddwyr yn ystod y cystadlu byw. Fe all methu â chydymffurfio â hyn arwain at dynnu marciau.
- Os oes toriad yn y pŵer neu ddamwain, rhaid i’r cystadleuwyr weithredu’n unol â chyfarwyddiadau’r beirniaid
- Ni fydd cystadleuwyr sy’n torri neu ddifrodi offer yn ystod y gystadleuaeth yn cael unrhyw amser ychwanegol.
- Os gwelir bod cystadleuydd yn gweithio mewn modd anniogel, byddant yn cael eu hatal rhag gweithio a ni chaniateir iddynt barhau oni bai eu bod yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Bydd y gystadleuaeth yn cael ei hasesu a'i marcio gan banel o feirniaid (o fyd diwydiant, colegau neu ddarparwyr hyfforddiant) gan ddefnyddio meini prawf y gystadleuaeth a dyraniad marciau.

Am restr gyflawn o delerau ac amodau cystadlu a rheolau’r gystadleuaeth ewch i:
www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai’r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o’r gystadleuaeth. Pe baech yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol ichi.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i’r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd yr holl weldiadau, uniadau ffabrigedig, a'r rhannau sydd wedi'u torri'n thermol, yn cael eu harchwilio'n weledol a'u hasesu yn erbyn meini prawf marcio.

Dyrennir marciau ar gyfer y canlynol

- Ansawdd a chywirdeb y toriadau Thermol
- Ansawdd a chywirdeb y Lleinweldiadau

- Ansawdd a chywirdeb Weldiadau Bôn y fflansiau
- Ongl a lleoliad yr ochrau
- Lleoliad a chywirdeb y tyllau sydd wedi'u drilio
- Ymddangosiad cyffredinol y darn ffabrigedig
- Cywirdeb cyffredinol y darn ffabrigedig
- Materion Iechyd a Diogelwch

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn Tystysgrif Cyfranogi ynghyd â gwahoddiad i Achlysur Dathlu ar-lein a gynhelir ar Dydd Iau 9eg Mawrth 2023, lle y bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfathrebu i gystadleuwyr a'u personau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael i gystadleuwyr ar ôl cwblhau'r broses sicrhau ansawdd.

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt**

Rona Griffiths - Coleg Cambria

**Cysylltiadau Arbenigol**

Antony Commins, Coleg Cambria, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4BR
antony.commins@cambria.ac.uk